

Cyhoeddwyd 12 Ebrill 2016 | Bydd yn dod i rym ar 1 Mehefin 2016

Arweiniad i feddygon sy'n cynnig ymyriadau cosmetig

Sut mae'r arweiniad hwn yn berthnasol i chi

Mae'r arweiniad hwn ar gyfer pob meddyg sy'n cynnig ymyriadau cosmetig.

Mae'r sector cosmetig yn faes sy'n ehangu yn gyflym, ac y mae wedi mynd o fod yn farchnad arbenigol i fod yn wasanaeth poblogaidd y mae bellach ar gael yn eang. Gall ymyriadau cosmetig gael effaith arwyddocaol ar iechyd a lles cleifion. Bu pryderon penodol ynghylch diogelwch cleifion ac ynghylch a yw'r sector yn gweithredu mewn ffordd foesegol. Mae'n bwysig bod meddygon yn meddu ar y sgiliau cywir, bod y cynhyrchion a ddefnyddir yn ddiogel, a bod cleifion yn cael gwybodaeth gywir cyn iddynt benderfynu cael ymyriad cosmetig. Mae'r arweiniad hwn yn nodi fframwaith arfer er mwyn rhoi sylw i'r pryderon hyn.

Pan fyddwn yn sôn am ymyriadau cosmetig, byddwn yn golygu unrhyw ymyriad, gweithdrefn neu driniaeth a gyflawnir gyda'r prif amcan o newid agwedd ar ymddangosiad corfforol claf. Mae hyn yn cynnwys gweithdrefnau llawfeddygol ac anllawfeddygol, yn rhai mewnwthiol ac anfewnwthiol.

* Mae'r diffiniad cyfreithiol o FGM yn eang iawn ac fe allai gynnwys gweithdrefnau fel tatŵau a thyllu yr organau cenedlu. Efallai y byddai o gymorth troi at arweiniad a gyhoeddir gan y llywodraeth a chan y colegau brenhinol meddygol, megis www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/472691/FGM_guidance.pdf (cyrchwyd 7 Mawrth 2016).

Nodau allweddol yr arweiniad hwn yw sicrhau bod meddygon:

- wedi cael hyfforddiant priodol ac yn meddu ar brofiad priodol er mwyn gwneud gwaith diogel
- yn gweithio gyda chleifion er mwyn cytuno ar ddisgwyliadau realistig ynghylch y canlyniadau y mae modd eu sicrhau yn achos y claf unigol
- yn dilyn y canllawiau neu'r protocolau presennol er mwyn darparu ymyriadau cosmetig mewn ffordd ddiogel ac effeithiol
- yn ystyried anghenion seicolegol eu cleifion
- nad ydynt yn caniatáu i unrhyw fuddiannau ariannol neu fasnachol mewn ymyriad penodol, neu sefydliad sy'n darparu ymyriadau cosmetig, i gael effaith niweidiol ar safonau gofal da i gleifion.

Nid yw'r arweiniad hwn yn berthnasol i ymyriadau y maent yn cyfateb ag anffurfio organau cenedlu benywod (FGM), sy'n anghyfreithlon yn y DU. Os nad ydych yn siŵr a yw ymyriad cosmetig penodol yn dod dan y diffiniad cyfreithiol o FGM,* rhaid i chi geisio cyngor, ee gan eich sefydliad amddiffyn neu adran gyfreithiol eich cyflogwr.

Defnyddio'r arweiniad

Mae'r arweiniad hwn yn cynnwys egwyddorion ein harweiniad cyfredol, ac mae wedi cael ei strwythuro dan y pedwar maes o fewn *Arfer meddygol da*. Mewn rhai achosion, mae'n nodi safon uwch na'r hyn a welir yn ein dogfennau arweiniad eraill er mwyn rhoi sylw i'r materion diogelwch penodol a'r pryderon moesegol y maent yn berthnasol i'r sector cosmetig yn benodol, fel yr argymhellwyd gan Syr Bruce Keogh yn *Review of the regulation of cosmetic interventions*.*

Rhaid i chi ddarllen yr arweiniad hwn law yn llaw gyda'n dogfennau arweiniad eraill[†] am ddealltwriaeth lawn o'r safonau disgwylidig o ran arfer. Trwy gydol y ddogfen hon, rydym wedi amlygu paragraffau penodol o'n harweiniad arall, y mae'n rhaid i chi eu darllen er mwyn cael y darlun llawn. Mae modd i chi weld y darnau hyn yn yr atodiad hefyd, sy'n cychwyn ar dudalen 13.

Trwy gydol yr arweiniad hwn, byddwn yn defnyddio'r termau 'rhaid i chi' a 'dylech' yn y ffyrdd canlynol.

- 'Defnyddir 'Rhaid i chi' ar gyfer egwyddor neu ddyletswydd o'r pwys mwyaf.
- Defnyddir 'Dylech' pan fyddwn yn rhoi esboniad o'r ffordd y byddwch yn cyflawni'r ddyletswydd o'r pwys mwyaf.
- Yn ogystal, defnyddir 'Dylech' pan na fydd y ddyletswydd neu'r egwyddor yn berthnasol ym mhob sefyllfa neu amgylchiad, neu pan fo ffactorau y tu allan i'ch rheolaeth yn effeithio ar sut neu a ydych yn gallu cydymffurfio â'r arweiniad.

* Adran Iechyd (Lloegr) (2013) *Review of the regulation of cosmetic interventions* ar gael trwy droi at: www.gov.uk/government/publications/review-of-the-regulation-of-cosmetic-interventions (cyrchwyd 7 Mawrth 2016). Yn ogystal, gweler adroddiad Grŵp Arbenigol ar Ymyriadau Cosmetig yr Alban (Llywodraeth yr Alban, 2015) y mae ar gael trwy droi at: www.gov.scot/Resource/0048/00481504.pdf (cyrchwyd 7 Mawrth 2016).

† Mae modd i chi ddarllen ein holl ddogfennau arweiniad y maent yn bodoli eisoes trwy droi at www.gmc-uk.org/guidance/ethical_guidance.asp.

Er mwyn cynnal eich trwydded i wneud gwaith meddygol, rhaid i chi ddangos, trwy'r broses ailddilysu, eich bod yn gweithio yn unol â'r egwyddorion a'r gwerthoedd a nodir yn yr arweiniad hwn. Bydd methiant difrifol neu barhaus i ddilyn yr arweiniad hwn yn peryglu'ch cofrestrriad.

Ffynonellau arweiniad eraill

Mae nifer o sefydliadau, gan gynnwys Coleg Brenhinol y Llawfeddygon, wedi cynhyrchu arweiniad ynghylch y safonau proffesiynol, y sgiliau a'r profiad y maent yn angenrheidiol er mwyn cyflawni ymyriadau cosmetig. Mae'r Pwyllgor Arfer Hysbysebu wedi datblygu arweiniad ynghylch y broses o hysbysebu a marchnata ymyriadau cosmetig. Rydym wedi cynnwys cyfeiriadau a dolenni i'r ffynonellau arweiniad eraill hyn, y maent yn cyd-fynd â'n harweiniad ni ar gyfer meddygon.

- **Professional Standards for Cosmetic Surgery** Cyhoeddwyd gan Goleg Brenhinol y Llawfeddygon (2016). Ar gael trwy droi at: bit.ly/RCScosmeticstandards
- **Qualification requirements for delivery of cosmetic procedures** Cyhoeddwyd gan Addysg Iechyd GIG Lloegr (2015). Ar gael trwy droi at: bit.ly/HEEcosmeticqualreq.
- **Report on implementation of qualification requirements for cosmetic procedures** Cyhoeddwyd gan Addysg Iechyd GIG Lloegr (2015). Ar gael trwy droi at: bit.ly/HEEcosmeticqualreport.

- **Y codau ymarfer gan:**
 - Gymdeithas Llawfeddygon Plastig Esthetig Prydain, y mae ar gael trwy droi at **bit.ly/BAAPS_code**
 - Gymdeithas Llawfeddygon Plastig, Adluniol ac Esthetig Prydain, y mae ar gael trwy droi at **bit.ly/BAPRAS_code**.
- **Marketing of cosmetic interventions**
Cyhoeddwyd gan y Pwyllgor Arfer Hysbysebu (2013). Ar gael trwy droi at: **bit.ly/CAP_cosmeticmarketing**.

Pwyntiau allweddol

Os ydych yn cynnig ymyriadau cosmetig, rhaid i chi:

- geisio caniatâd y claf i'r weithdrefn eich hun, yn hytrach na dirprwyo'r dasg hon
- sicrhau bod cleifion yn cael digon o amser a gwybodaeth cyn iddynt benderfynu cael ymyriad neu beidio
- ystyried anghenion seicolegol eich cleifion ac a yw hi'n briodol eu cyfeirio at gydweithiwr proffesiynol profiadol arall
- cydnabod a gweithio o fewn terfynau eich cymhwysra, gan geisio cyngor yn ôl yr angen
- sicrhau bod gan gleifion y wybodaeth y maent yn ei dymuno neu y mae angen iddynt ei chael, gan gynnwys gwybodaeth ysgrifenedig sy'n cynorthwyo parhad gofal ac sy'n cynnwys gwybodaeth berthnasol am y meddyginiaethau neu'r dyfeisiau a ddefnyddir
- cymryd gofal arbennig wrth ystyried ceisiadau am ymyriadau ar blant a phobl ifanc
- marchnata eich gwasanaethau mewn ffordd gyfrifol, heb wneud honiadau nad oes modd eu cyfiawnhau ynghylch ymyriadau, bychanu'r risgiau dan sylw, neu ddefnyddio tactegau hyrwyddo y gallent annog pobl i wneud penderfyniadau byrbwyll.

Yn yr un modd â phob meddyg yn holl feysydd meddygaeth, rhaid i chi hefyd:

- weithio mewn partneriaeth gyda chleifion, a'u trin gydag urddas a pharch
- cadw cleifion yn ddiogel, gweithio i wella diogelwch ac adrodd am bryderon sy'n ymwneud â diogelwch
- gweithio mewn ffordd effeithiol gyda chydweithwyr
- bod yn ymwybodol o'r gyfraith a'r canllawiau perthnasol diweddaraf, a'u dilyn
- bod yn agored ac yn onest am eich sgiliau, eich profiad, eich ffioedd ac unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau sydd gennych.

Gwybodaeth, sgiliau a pherfformiad

- 1 Rhaid i chi gydnabod a gweithio o fewn terfynau eich cymhwysra, gan gyfeirio cleifion at ymarferwyr eraill pan na fydd modd i chi fodloni anghenion y claf mewn ffordd ddiogel.
- 2 Cyn cynnal ymyriad am y tro cyntaf eich hun, neu oruchwylio eraill yn ei gyflawni, rhaid i chi sicrhau eich bod yn gallu gwneud hynny mewn ffordd ddiogel, ee trwy gael hyfforddiant neu geisio cyfleoedd i wneud gwaith dan oruchwyliaeth.*
- 3 Rhaid i chi gymryd rhan mewn gweithgareddau er mwyn cynnal a datblygu eich cymhwysra a'ch perfformiad ar draws ystod lawn eich gwaith.
- 4 Rhaid i chi sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r gyfraith a'r canllawiau clinigol a moesegol diweddaraf y maent yn berthnasol i'ch gwaith. Rhaid i chi ddilyn y gyfraith, ein harweiniad ni ac unrhyw reoliadau eraill y maent yn berthnasol i'ch gwaith.
- 5 Rhaid i chi geisio a gweithredu ar sail adborth gan gleifion, gan gynnwys gwybodaeth am eu bodlonrwydd a'u canlyniadau corfforol a seicolegol. Rhaid i chi ddefnyddio hwn, ac adborth gan gydweithwyr, er mwyn cyfrannu at eich gwaith ac er mwyn gwella ansawdd eich gwaith.
- 6 Rhaid i chi sicrhau bod eich arfarniad blynyddol yn cynnwys eich holl waith.

Diogelwch ac ansawdd

- 7 Er mwyn helpu i gadw cleifion yn ddiogel, rhaid i chi ddilyn yr arweiniad ynghylch sefydlu a chymryd rhan mewn systemau a phrosesau y maent yn cynorthwyo gweithgarwch sicrhau ansawdd a gwella gwasanaethau, fel y nodir yn *Arfer meddygol da* a'n harweiniad esboniadol cysylltiedig. Yn arbennig, rhaid i chi:
 - a gydymffurfio gydag unrhyw ddyletswyddau adrodd statudol y maent mewn grym
 - b cyfrannu at raglenni cenedlaethol er mwyn monitro ansawdd a chanlyniadau, gan gynnwys unrhyw gofrestrfeydd dyfeisiau perthnasol

* Mae modd i chi gael cyngor ynghylch goruchwyliaeth glinigol effeithiol gan ffynonellau megis dogfen *Supporting effective clinical supervision* y Comisiwn Ansawdd Gofal, y mae ar gael trwy droi at: www.cqc.org.uk/sites/default/files/documents/20130625_800734_v1_00_supporting_information-effective_clinical_supervision_for_publication.pdf (cyrchwyd 7 Mawrth 2016).

Rhaid i chi ddarllen para-graffau 7–10 law yn llaw ag:

- *Arfer meddygol da* [paragraffau 22–23](#)
- *Arfer da wrth bresgripsiynu a rheoli meddyginiaethau a dyfeisiau*, [paragraffau 46–50](#)
- *Arweinyddiaeth a rheolaeth ar gyfer pob meddyg*, [paragraffau 24–29](#)
- *Mynegi pryderon am ddiogelwch cleifion a gweithredu yn eu cylch*, [paragraffau 7–10](#).

- c monitro canlyniadau cleifion fel mater o drefn, ac archwilio eich arfer, gan adrodd data blynyddol o leiaf
 - d adrodd pryderon y maent yn ymwneud â diogelwch cynnyrch i'r rheolydd perthnasol.*
- 8 Dylech rannu dirnadaeth a gwybodaeth am ganlyniadau gyda phobl eraill y maent yn cynnig ymyriadau tebyg, er mwyn gwella canlyniadau a diogelwch cleifion.†
 - 9 Rhaid i chi ddweud wrth gleifion sut i adrodd am gymhlethdodau ac adweithiau niweidiol.
 - 10 Rhaid i chi fod yn agored ac yn onest gyda chleifion yn eich gofal, neu'r rhai y maent yn agos iddynt, os bydd rhywbeth yn mynd o'i le ac os bydd y claf yn dioddef neu os allai'r claf ddioddef niwed neu ofid o ganlyniad.‡
 - 11 Rhaid i chi gynnal archwiliad corfforol o gleifion cyn rhagnodi meddyginiaethau cosmetig i'w chwistrellu. Felly, ni ddylech ragnodi'r meddyginiaethau hyn dros y ffôn, trwy gyfrwng cyfleuster cyswllt fideo, ar-lein neu ar gais eraill ar gyfer cleifion nad ydych wedi eu harchwilio.
 - 12 Rhaid i chi geisio a gweithredu ar sail tystiolaeth ynghylch effeithiolrwydd yr ymyriadau a gynigir gennych, gan ddefnyddio hyn er mwyn gwella'ch perfformiad. Rhaid i chi ddarparu ymyriadau wedi'u seilio ar y dystiolaeth ddiweddaraf ac orau sydd ar gael ynghylch effeithiolrwydd, sgîl-ffeithiau a risgiau eraill.
 - 13 Dylech deimlo'n fodlon bod yr amgylchedd gwaith yn ddiogel, ei fod yn cynnwys offer a staff addas a'i fod yn cydymffurfio gydag unrhyw ofynion rheoliadol perthnasol.

* Caiff meddyginiaethau a dyfeisiau meddygol yn y DU eu rheoleiddio gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a chynhyrchion. Gweler www.gov.uk/government/organisations/medicines-and-healthcare-products-regulatory-agency (cyrchwyd 7 Mawrth 2016).

† Mae'r Rhwydwaith Gwybodaeth Gofal Iechyd Preifat (PHIN) yn casglu ac yn cyhoeddi gwybodaeth lawfeddygol am ofal iechyd annibynnol er mwyn helpu cleifion i wneud dewisiadau doeth. Gweler www.phin.org.uk (cyrchwyd 7 Mawrth 2016).

‡ Gweler ein harweiniad *Gweithredu mewn ffordd agored a gonest pan fydd pethau yn mynd o le*, y mae ar gael trwy droi at: www.gmc-uk.org/guidance/ethical_guidance/27233.asp.

Rhaid i chi ddarllen paragraffau 7–10 law yn llaw ag:

- *Arfer meddygol da* [paragraffau 22–23](#)
- *Arfer da wrth bresgripsiynu a rheoli meddyginiaethau a dyfeisiau*, [paragraffau 46–50](#)
- *Arweinyddiaeth a rheolaeth ar gyfer pob meddyg*, [paragraffau 24–29](#)
- *Mynegi pryderon am ddiogelwch cleifion a gweithredu yn eu cylch*, [paragraffau 7–10](#).

Cyfathrebu, partneriaeth a gwaith tîm*

- 14 Rhaid i chi gyfathrebu mewn ffordd eglur a pharchus gyda chleifion, gan wrando ar eu cwestiynau a'u pryderon ac ystyried unrhyw anghenion sydd ganddynt i gael cymorth er mwyn cymryd rhan effeithiol yn y broses o wneud penderfyniadau.

Ceisio caniatâd cleifion

- 15 Rhaid eich bod yn gyfarwydd gyda'r arweiniad yn *Caniatâd: cleifion a meddygon yn gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd*. Yn y paragraffau canlynol, rydym wedi amlygu pwyntiau allweddol o'r arweiniad, y maent yn bwysig er mwyn diogelu buddiannau cleifion mewn perthynas ag ymyriadau cosmetig.

Cyfrifoldeb dros geisio caniatâd ar gyfer ymyriadau cosmetig

- 16 Os mai chi yw'r meddyg a fyddai'n cyflawni'r ymyriad, eich cyfrifoldeb chi yw ei drafod gyda'r claf a cheisio eu caniatâd – ni ddylech ddirprwyo'r cyfrifoldeb hwn. Mae'n hanfodol er mwyn sicrhau dealltwriaeth a rennir o'r disgwyladau a'r cyfyngiadau, bod caniatâd i ymyriad cosmetig yn cael ei geisio gan y meddyg a fydd yn ei gyflawni, neu y byddant yn goruchwyllo'r broses o'i gyflawni gan ymarferwr arall.

Ymateb i geisiadau am ymyriadau cosmetig

- 17 Os bydd claf yn gofyn am ymyriad, rhaid i chi ddilyn yr arweiniad yn *Caniatâd*, gan gynnwys ystyried hanes meddygol y claf. Rhaid i chi ofyn i'r claf pam fyddent yn dymuno cael yr ymyriad a'r canlyniad y maent yn gobeithio ei weld, cyn asesu a yw'r ymyriad yn briodol ac yn debygol o fodloni eu hanghenion.
- 18 Os ydych o'r farn ei bod yn annhebygol bod yr ymyriad yn mynd i gyflawni'r canlyniad a ddymunir neu fod o fudd cyffredinol i'r claf, rhaid i chi drafod hyn gyda'r claf, gan esbonio'ch rhesymau. Ar ôl cael trafodaeth, os ydych o'r farn o hyd na fydd yr ymyriad yn cynnig budd i'r claf, ni ddylech ei ddarparu. Dylech drafod dewisiadau eraill sydd ar gael i'r claf, gan barchu eu hawl i geisio ail farn.

Rhaid i chi ddarllen paragraff 17 law yn llaw ag:

- *Arfer meddygol da, paragraffau 15 ac 16*
- *Caniatâd: cleifion a meddygon yn gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd, paragraffau 44, 47 a 49.*

* Gweler ein dogfen *Arweiniad i feddygon sy'n cyflawni rôl clinigwyr neu feddygon ymgynghorol cyfrifol* trwy droi at: www.gmc-uk.org/guidance/ethical_guidance/25335.asp.

- 19 Pan fyddwch yn trafod ymyriadau a dewisiadau gyda chlaf, rhaid i chi ystyried eu hanghenion seicolegol a'r rhesymau sy'n peri iddynt fod yn agored i niwed. Rhaid i chi deimlo'n fodlon bod cais y claf am yr ymyriad cosmetig yn wirfoddol.
- 20 Rhaid i chi esbonio unrhyw ofynion gofal dilynol neu fonitro ar y dechrau. Rhaid i chi ddweud wrth gleifion os bydd angen tynnu dyfeisiau meddygol sy'n cael eu mewnbllannu allan efallai, neu os bydd angen eu disodli, a phryd y bydd angen gwneud hynny.
- 21 Rhaid i chi ddweud wrth ddarpar gleifion os oes ymyriadau amgen ar gael y byddai modd iddynt fodloni eu hanghenion gan achosi llai o risg, gan gynnwys ymyriadau gan ymarferwyr eraill.

Trafod sgîl-ffeithiau, cymhlethdodau a risgiau eraill

- 22 Rhaid i chi roi gwybodaeth eglur a manwl i gleifion am risgiau yr ymyriad arfaethedig ac unrhyw weithdrefnau cysylltiedig, gan gynnwys anesthesia a thawelyddu,* gan ddilyn yr arweiniad yn *Caniatâd* (paragraffau 28–36).
- 23 Rhaid i chi siarad gyda'r claf am unrhyw ganlyniadau niweidiol y gallent ddeillio o'r ymyriad arfaethedig, gan roi sylw penodol i'r rhai y mae'r claf yn pryderu amdanynt fwyaf.† Rhaid i chi drafod effaith gorfforol a seicolegol niweidiol bosibl yr ymyriad yn mynd o'i le neu o fethu bodloni disgwyliadau'r claf.

Rhoi amser i gleifion fyfyrrio

- 24 Rhaid i chi roi'r amser a'r wybodaeth i'r claf y mae angen iddynt ei chael er mwyn gwneud penderfyniad gwirfoddol a gwybodus ynghylch a ddylent fwrw ymlaen gydag ymyriad neu beidio.
- 25 Bydd swm yr amser y mae angen i gleifion ei gael er mwyn myfyrrio, ynghyd â swm a'r math o wybodaeth y bydd angen iddynt ei chael, yn dibynnu ar sawl ffactor. Mae'r rhain yn cynnwys pa mor fewnwthiol, pa mor gymhleth a pha mor barhaol yw'r ymyriad, ynghyd â'i risgiau, sawl dewis o ran ymyriad y mae'r claf yn eu hystyried, a faint o wybodaeth y maent wedi'i hystyried yn barod am ymyriad arfaethedig.
- 26 Rhaid i chi ddweud wrth y claf bod modd iddynt newid eu meddwl ar unrhyw adeg.

* Gweler dogfen Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion, *Safe Sedation Practice for Healthcare Procedures: Standards and Guidance*, y mae ar gael trwy droi at: www.rcoa.ac.uk/document-store/safe-sedation-practice-healthcare-procedures-standards-and-guidance (cyrchwyd 7 Mawrth 2016).

† Gweler *Montgomery v Bwrdd Iechyd Swydd Lanark (Yr Alban)* [2015] UKSC 11.

Rhaid i chi ddarllen paragraff 19 law yn llaw â:

- *Caniatâd: cleifion a meddygon yn gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd, paragraffau 41 a 42.*

Rhaid i chi ddarllen paragraff 22 law yn llaw â:

- *Caniatâd: cleifion a meddygon yn gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd, paragraffau 28–36.*

Rhaid i chi ddarllen paragraff 25 law yn llaw â:

- *Caniatâd: cleifion a meddygon yn gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd, paragraffau 52 a 53.*

27 Rhaid i chi ystyried a oes angen ymgynghori gyda meddyg teulu y claf er mwyn cyfrannu at y drafodaeth ynghylch y manteision a'r risgiau. Os felly, rhaid i chi geisio caniatâd y claf, ac os byddant yn gwrthod, dylech drafod eu rhesymau dros wneud hynny, a'u hannog i roi caniatâd i chi gysylltu â'u meddyg teulu. Os yw'r claf yn benderfynol o beidio cynnwys eu meddyg teulu, rhaid i chi gofnodi hyn yn eu nodiadau, gan ystyried sut y mae hyn yn effeithio ar y cydbwysedd rhwng risg a budd, ac a ddylech fwrw ymlaen gyda'r ymyriad.

Rhoi gwybodaeth eglur ynghylch ffioedd a thaliadau

- 28** Rhaid i chi esbonio eich taliadau mewn ffordd eglur, fel bod cleifion yn gwybod goblygiadau ariannol unrhyw benderfyniad i symud ymlaen i'r cam nesaf neu i dynnu yn ôl.
- 29** Rhaid i chi fod yn eglur am yr hyn sy'n cael ei gynnwys yn y prisiau a ddyfynnir, a pha daliadau eraill y bydd angen eu talu efallai, gan gynnwys taliadau posibl am waith adolygu neu waith dilynol arferol.

Trin oedolion heb alluedd

- 30** Os ydych yn ystyried darparu ymyriad ar gyfer oedolyn heb alluedd i wneud y penderfyniad ynghylch a ddylid bwrw ymlaen gyda'r ymyriad neu beidio, rhaid i chi ddilyn y cyngor ym mharagraffau 62–79 ein harweiniad *Caniatâd*. Mae'r arweiniad hwn yn ystyried y gofynion cyfreithiol ar draws y DU, y maent yn llywodraethu'r broses o wneud penderfyniadau gydag oedolion heb alluedd.
- 31** Rhaid i chi geisio ac ystyried safbwyntiau pobl y maent yn agos i'r claf, ynghyd ag unrhyw wybodaeth sydd gennych chi a'r tîm gofal iechyd am ddymuniadau, teimladau, credoau a gwerthoedd y claf. Dylai'ch dull gweithredu wrth ymgynghori gyda'r rhai y maent yn agos i'r claf, ddilyn y cyngor ynghylch rhannu gwybodaeth a nodir ym mharagraffau 18–25 ein harweiniad *Caniatâd*.

Rhaid i chi ddarllen paragraff 30 law yn llaw â:

- *Caniatâd: cleifion a meddygon yn gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd, paragraffau 62–79.*

Rhaid i chi ddarllen paragraff 31 law yn llaw â:

- *Caniatâd: cleifion a meddygon yn gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd, paragraffau 18–25.*

Trin plant a phobl ifanc*

- 32** Os ydych yn darparu triniaeth i blant, dylech fod yn gyfarwydd gyda'r cyngor manwl yn *0–18 oed: arweiniad i bob meddyg, sy'n cynnwys y pwyntiau allweddol a nodir yn yr adran hon o'r arweiniad*. Dylech gymryd gofal arbennig os ydych yn ystyried darparu ymyriadau cosmetig i blant neu bobl ifanc – dylech sicrhau bod yr amgylchedd er mwyn gwneud eich gwaith yn briodol ar gyfer gofal pediatrig, gan weithio gyda thimau amlddisgyblaethol y maent yn darparu arbenigedd wrth drin plant a phobl ifanc yn ôl yr angen.
- 33** Dim ond ymyriadau y maent er budd pennaf[†] y plentyn neu'r person ifanc y dylech eu darparu. Os bydd person ifanc yn meddu ar alluedd i benderfynu a ydynt yn dymuno cael ymyriad neu beidio, dylech eu hannog i gynnwys eu rhieni wrth iddynt wneud eu penderfyniad o hyd.
- 34** Mae modd i riant[‡] roi eu caniatâd i ymyriad ar gyfer plentyn neu berson ifanc nad ydynt yn meddu ar yr aeddfedrwydd a'r galluedd i wneud y penderfyniad, ond dylech gynnwys y plentyn yn y penderfyniad gymaint ag y bo modd. Os byddwch yn barnu nad yw'r plentyn yn dymuno cael yr ymyriad cosmetig, ni ddylech ei gyflawni.
- 35** Ni ddylai'ch gweithgareddau marchnata dargedu plant neu bobl ifanc, trwy eu cynnwys neu eu lleoliad.

Darparu parhad o ran gofal

- 36** Dylech ystyried a fydd angen i chi neu gydweithiwr adolygu ymateb y claf i'r ymyriad, gan sicrhau bod y claf yn deall a ydych yn argymhell apwyntiad dilynol neu beidio.
- 37** Rhaid i chi sicrhau bod gan y claf y meddyginiaethau neu'r offer y mae angen iddynt eu cael er mwyn gofalu am eu hunain yn dilyn ymyriad.
- 38** Rhaid i chi sicrhau bod eich cleifion yn gwybod sut i gysylltu â chi neu unigolyn penodol[§] arall y maent yn meddu ar gymhwyster addas os byddant yn cael cymhlethdodau y tu allan i'ch oriau gwaith arferol chi.

* Gweler ein harweiniad *0–18 oed: arweiniad ar gyfer pob meddyg* am ragor o wybodaeth am yr egwyddorion cyffredinol y dylech eu dilyn, yn ychwanegol i'r arweiniad hwn, pan fyddwch yn trin plant a phobl ifanc.

† Gweler paragraffau 12 ac 13 *0–18 oed: arweiniad i bob meddyg* am arweiniad ynghylch asesu budd pennaf.

‡ Mae 'Rhieni' yn bobl y mae ganddynt gyfrifoldeb rhiant.

§ Gweler ein dogfen *Arweiniad i feddygon sy'n cyflawni rôl clinigwyr neu feddygon ymgynghorol cyfrifol*.

Rhaid i chi ddarllen paragraff 32 law yn llaw â:

- *0–18 oed: arweiniad i bob meddyg, paragraffau 12 a 22.*

- 39** Dylech roi gwybodaeth ysgrifenedig i gleifion sy'n esbonio'r ymyriad y maent wedi'i gael mewn digon o fanylder er mwyn galluogi meddyg arall i ymgymryd â'r gofal dros y claf. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth berthnasol am y meddyginiaethau neu'r dyfeisiau a ddefnyddiwyd. Yn ogystal, dylech anfon y wybodaeth hon, ar ôl sicrhau caniatâd y claf, i'w meddyg teulu, ynghyd ag unrhyw feddygon eraill sy'n eu trin, os yw'n debygol o effeithio ar eu gofal iechyd yn y dyfodol. Os bydd y claf yn gwrthwynebu i'r cam o anfon y wybodaeth i'w meddyg, rhaid i chi gofnodi hyn yn eu nodiadau, a byddwch yn gyfrifol am ddarparu gofal dilynol y claf.
- 40** Dylech drefnu eich cofnodion mewn ffordd sy'n golygu bod modd adnabod cleifion y maent wedi cael eu trin gyda dyfais neu feddyginiaeth benodol os ceir unrhyw bryderon neu ymholiadau rheoliadol ynghylch diogelwch cynnyrch.
- 41** Rhaid i chi gadw cofnodion sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol am gleifion mewn ffordd ddiogel, ac yn unol ag:
- a** unrhyw ofynion diogelu data
 - b** ein harweiniad *Cyfrinachedd*
 - c** arweiniad a gyhoeddwyd gan adrannau iechyd y DU, hyd yn oed pan ddarparir yr ymyriadau y tu allan i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

Rhaid i chi ddarllen paragraff 41 law yn llaw â:

- *Cyfrinachedd, paragraffau 12–16 a 64–66.*

Gweithio gyda chydweithwyr*

- 42** Rhaid i chi sicrhau bod unrhyw un yr ydych yn dirprwyo[†] gofal iddynt yn meddu ar y wybodaeth, y sgiliau a'r hyfforddiant angenrheidiol, a'u bod yn cael eu goruchwyllo mewn ffordd briodol.
- 43** Rhaid i chi weithio mewn ffordd effeithiol gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ac eraill y maent yn ymwneud â'r broses o ddarparu gofal. Rhaid i chi barchu sgiliau cydweithwyr mewn timau aml-ddisgyblaethol a'u cynorthwyo i ddarparu gofal da ar gyfer cleifion.

* Mae cydweithwyr yn cynnwys unrhyw un y mae meddyg yn gweithio gyda nhw, o fewn a thu allan i'w tîm, os ydynt yn feddygon hefyd neu beidio.

† Gweler ein harweiniad *Dirprwyo a chyfeirio* y mae ar gael trwy droi at www.gmc-uk.org/guidance/ethical_guidance/21187.asp.

- 44 Rhaid i chi ofyn am gyngor cydweithwyr os bydd gan y claf gyflwr iechyd nad yw o fewn eich maes arbenigol chi, ac y gallai fod yn berthnasol i'r ymyriad neu i gais y claf.
- 45 Rhaid i chi sicrhau eich bod yn creu rhwydwaith cymorth o gydweithwyr proffesiynol profiadol y byddant yn gallu eich cynorthwyo a'ch cynghori. Dylech ofyn am gyngor pan fyddwch yn trin cleifion y bydd angen cymorth neu asesiad arbenigol arall neu seicolegol arnynt.

Cynnal ymddiriedaeth

Gonestrwydd

- 46 Rhaid i chi fod yn onest bob amser, ac ni ddylech fyth gamarwain ynghylch eich sgiliau, eich profiad, eich cymwysterau, eich statws proffesiynol a'ch rôl cyfredol.

Cyfleu gwybodaeth am eich gwasanaethau

- 47 Pan fyddwch yn hysbysebu eich gwasanaethau, rhaid i chi ddilyn y codau a'r canllawiau rheoliadol a osodwyd gan y Pwyllgor Arfer Hysbysebu.*
- 48 Rhaid i chi sicrhau bod y wybodaeth y byddwch yn ei chyhoeddi yn ffeithiol a bod modd ei chadarnhau, ac nad yw'n camfanteisio ar ddiffyg gwybodaeth feddygol neu natur agored i niwed cleifion.
- 49 Rhaid i'ch gweithgarwch marchnata fod yn gyfrifol.† Ni ddylai leihau neu fychanu risgiau ymyriadau, ac ni ddylai gamfanteisio ar natur agored i niwed cleifion. Ni ddylech honni bod ymyriadau yn rhydd rhag risg.
- 50 Os bydd angen i gleifion gael asesiad meddygol cyn i chi gynnal ymyriad, rhaid i'ch gweithgarwch marchnata nodi hyn mewn ffordd eglur.
- 51 Ni ddylech gamarwain am y canlyniadau yr ydych yn debygol o'u sicrhau. Ni ddylech wneud honiadau anwir neu awgrymu bod canlyniadau penodol yn siŵr o gael eu sicrhau gan ymyriad.

* Pwyllgor Arfer Hysbysebu (2013) *Marketing of Cosmetic Interventions* ar gael trwy droi at: bit.ly/CAP_cosmeticmarketing (cyrchwyd 7 Mawrth 2016).

† Treatments You Can Trust (2015) *Policy Statement on the Advertising and Promotion of Non-Surgical Cosmetic Injectable Treatments by providers on the Treatments You Can Trust Register* ar gael trwy droi at: www.treatmentsyoucantrust.org.uk/95-tyct-policy-statement-advertising-non-surgical-cosmetic-treatments-2015?lang=en (cyrchwyd 7 Mawrth 2016).

- 52 Ni ddylech ddefnyddio tactegau hyrwyddo mewn ffyrdd y gallent annog pobl i wneud penderfyniad byrbwyll.
- 53 Ni ddylech ddarparu eich gwasanaethau fel gwobr.
- 54 Ni ddylech ganiatáu i eraill eich camddehongli neu gynnig eich gwasanaethau mewn ffyrdd y byddent yn mynd yn groes i'r arweiniad hwn, o fwriad.

Gonestrwydd mewn trafodion ariannol

- 55 Rhaid i chi fod yn agored ac yn onest gyda'ch cleifion am unrhyw fuddiannau ariannol neu fasnachol y gallent gael eu gweld fel pe baent yn effeithio ar y ffordd yr ydych yn rhagnodi, yn cynghori, yn trin, yn cyfeirio neu'n comisiynu gwasanaethau ar eu cyfer.
- 56 Ni ddylech ganiatáu i'ch budd ariannol neu fasnachol mewn ymyriad cosmetig, neu sefydliad sy'n darparu ymyriadau cosmetig, i effeithio ar eich argymhellion i gleifion neu'ch ymlyniad wrth safonau gofal da disgwylidig.

Atodiad

Mae'r canlynol yn ddyfyniadau o'n darnau eraill o arweiniad ar gyfer meddygon, y mae'n rhaid i chi eu darllen law yn llaw gyda'r ddogfen hon.

Arfer meddygol da

15 Rhaid i chi ddarparu gofal a gwneud gwaith meddygol o safon da. Os byddwch yn asesu, yn gwneud diagnosis neu'n trin cleifion, rhaid i chi:

- a** asesu cyflyrau'r claf yn ddigonol, gan ystyried eu hanes (gan gynnwys y symptomau, a ffactorau seicolegol, ysbrydol, cymdeithasol a diwylliannol), eu safbwyntiau a'u gwerthoedd; dylech archwilio'r claf yn ôl yr angen
- b** darparu neu drefnu cyngor, archwiliadau neu driniaeth addas yn brydlon, yn ôl yr angen
- c** cyfeirio claf at ymarferwr arall pan fyddai hyn yn bodloni anghenion y claf.

16 Wrth ddarparu gofal clinigol, rhaid i chi:

- a** ragnodi cyffuriau neu driniaeth, gan gynnwys presgripsiynau amlroddadwy, dim ond pan fydd gennych wybodaeth ddigonol am iechyd y claf a phan fyddwch yn fodlon bod y cyffuriau neu'r driniaeth yn diwallu anghenion y claf
- b** darparu triniaethau effeithiol wedi'u seilio ar y dystiolaeth orau sydd ar gael
- c** cymryd yr holl gamau ag y bo modd i leddfu poen a gofid os yw gwellhad yn bosibl neu beidio
- d** ymgynghori gyda chydweithwyr pan fo hynny'n briodol

- e** parchu hawl y claf i gael ail farn
- f** sicrhau bod y gofal neu'r driniaeth yr ydych yn ei ddarparu ar gyfer pob claf yn cyd-fynd ag unrhyw driniaethau eraill y mae'r claf yn eu cael, gan gynnwys (pan fo modd) meddyginiaethau dros y cownter y byddant yn eu rhagnodi i'w hunain
- g** pryd bynnag y bo modd, osgoi darparu gofal meddygol i'ch hun neu i unrhyw un y mae gennych berthynas bersonol agos gyda nhw.

22 Rhaid i chi gymryd rhan mewn systemau sicrhau ansawdd a gwella ansawdd er mwyn hyrwyddo diogelwch cleifion. Mae hyn yn cynnwys:

- a** cymryd rhan mewn archwiliadau ac adolygiadau rheolaidd o'ch gwaith a gwaith eich tîm, ymateb mewn ffordd adeiladol i'r canlyniadau, cymryd camau er mwyn rhoi sylw i unrhyw broblemau a chynnal hyfforddiant pellach yn ôl yr angen
- b** myfyrio ynghylch safonau'ch arfer meddygol a'r gofal yr ydych yn ei ddarparu yn rheolaidd
- c** adolygu adborth gan gleifion pan fydd ar gael.

23 Er mwyn helpu i gadw cleifion yn ddiogel, rhaid i chi:

- a** gyfrannu at ymchwiliadau cyfrinachol
- b** cyfrannu at weithgarwch adnabod digwyddiadau niweidiol

- c adrodd am ddigwyddiadau niweidiol y maent yn ymwneud â dyfeisiau meddygol ac y maent yn peryglu diogelwch claf neu berson arall, neu y gallent beryglu diogelwch claf neu berson arall
- d adrodd am achosion lle y ceir amheuaeth bod adweithiau niweidiol i gyffuriau wedi digwydd
- e ymateb i geisiadau gan sefydliadau sy'n monitro iechyd y cyhoedd.

Wrth ddarparu gwybodaeth at y dibenion hyn, dylech barchu cyfrinachedd cleifion o hyd.

Arfer da wrth bresgripsiynu a rheoli meddyginiaethau a dyfeisiau

- 46 Mae modd i weithgarwch arferol a chynnar er mwyn adrodd am adweithiau niweidiol, digwyddiadau ac achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd, y maent yn ymwneud gyda meddyginiaethau a dyfeisiau, ganiatáu i faterion sy'n ymwneud â pherfformiad a systemau gael eu hymchwilio, i broblemau gael eu datrys ac i wersi gael eu dysgu. Rhaid i chi baratoi adroddiadau yn unol â gweithdrefnau llywodraethu clinigol lleol eich cyflogwr neu'ch corff contractio.
- 47 Rhaid i chi hysbysu'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) ynghylch:
 - a adweithiau niweidiol amheus difrifol i bob meddyginiaeth a phob adwaith i gynhyrchion y maent yn dwyn nod Triongl Du yn Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain ac mewn manau eraill sy'n defnyddio Cynllun y Cerdyn Melyn.
 - b digwyddiadau niweidiol sy'n cynnwys dyfeisiau meddygol, gan gynnwys y rhai a achosir gan gamgymeriadau dynol y maent

yn peryglu neu y mae ganddynt y potensial i beryglu iechyd cleifion, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol neu eraill. Yn ogystal, dylid adrodd y digwyddiadau hyn i'r swyddog cyswllt dros ddyfeisiau meddygol yn eich sefydliad.

- 48 Dylech ddarparu gwybodaeth i gleifion ynghylch sut y mae modd iddynt adrodd am sgîl-ffeithiau amheus i MHRA yn uniongyrchol.
- 49 Yn ogystal, dylech:
 - a sicrhau bod yr holl ddigwyddiadau difrifol ynghylch diogelwch cleifion yn cael eu hadrodd i'r System Genedlaethol ar gyfer Adrodd a Dysgu (yng Nghymru a Lloegr), yn enwedig os na chaiff digwyddiadau o'r fath eu hadrodd yn awtomatig trwy gyfrwng trefniadau llywodraethu clinigol lle'r ydych yn gweithio
 - b pan fo hynny'n briodol, hysbysu meddyg teulu y claf, y fferyllfa a wnaeth gyflenwi'r feddyginiaeth, y swyddog atebol lleol dros gyffuriau rheoledig a chynhyrchwyr meddyginiaethau o adweithiau niweidiol perthnasol i gyffuriau a digwyddiadau'n ymwneud â diogelwch cleifion.
- 50 Dylech ymateb i geisiadau gan yr Uned Ymchwilio Diogelwch Cyffuriau am ddata monitro digwyddiadau presgripsiwn a gwybodaeth ar gyfer astudiaethau ynghylch materion penodol yn ymwneud â diogelwch neu ffarmacowlyliadwraeth.

Arweinyddiaeth a rheolaeth ar gyfer pob meddyg

- 24 Mae adnabod problemau neu faterion o ran perfformiad unigolion, timau neu wasanaethau yn gynnar, yn hanfodol er mwyn helpu i ddiogelu cleifion.

Pob meddyg

- 25 Rhaid i chi gymryd rhan mewn adolygiadau ac archwiliadau rheolaidd o safonau a pherfformiad unrhyw dîm yr ydych yn gweithio ynddo, gan gymryd camau i ddatrys unrhyw broblemau.
- 26 Dylech fod yn gyfarwydd gyda'r prosesau a'r strwythurau rheoli risg a llywodraethu clinigol o fewn y sefydliadau yr ydych yn gweithio iddynt neu y mae gennych gontract gyda nhw, ynghyd â'u defnydd. Yn ogystal, rhaid i chi ddilyn y weithdrefn yn y man lle'r ydych yn gweithio er mwyn adrodd am ddigwyddiadau niweidiol a digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd. Mae hyn oherwydd bod nodi digwyddiadau niweidiol neu ddigwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd yn gynnar, yn gallu golygu bod modd delio gyda materion, bod modd cywiro problemau a bod modd dysgu gwersi.
- 27 Rhaid i chi ddilyn yr arweiniad yn *Arfer meddygol da ac yn Mynegi pryderon am ddiogelwch cleifion, a gweithredu yn eu cylch* pan fydd gennych reswm dros gredu bod systemau, polisiau, gweithdrefnau neu gydweithwyr yn rhoi cleifion mewn perygl o ddioddef niwed, neu y gallent fod yn rhoi cleifion mewn perygl o ddioddef niwed.

Meddygon y mae ganddynt gyfrifoldebau ychwanegol

- 28 Os oes gennych rôl neu gyfrifoldeb rheoli, rhaid i chi sicrhau bod systemau mewn grym er mwyn rhoi rhybudd cynnar ynghylch unrhyw fethiant, neu fethiant posibl, ym mherfformiad clinigol unigolion neu dimau. Dylai'r rhain gynnwys systemau er mwyn cynnal archwiliadau ac er mwyn ystyried adborth gan gleifion. Rhaid i chi sicrhau bod sylw yn cael ei roi i unrhyw fethiant o'r fath yn gyflym ac mewn ffordd effeithiol.

- 29 Os ydych yn rheoli neu'n arwain tîm, dylech sicrhau bod systemau, gan gynnwys systemau archwilio a meincnodi, mewn grym er mwyn monitro, adolygu a gwella ansawdd gwaith y tîm. Rhaid i chi weithio gydag eraill er mwyn casglu a rhannu gwybodaeth am brofiad a chanlyniadau cleifion. Rhaid i chi sicrhau bod y timau yr ydych yn eu rheoli yn cael eu cynorthwyo a'u datblygu mewn ffordd briodol a'u bod yn eglur ynghylch eu hamcanion.

Mynegi pryderon am ddiogelwch cleifion a gweithredu yn eu cylch

- 7 Mae gan bob meddyg ddyletswydd i fynegi pryderon pan fyddant o'r farn bod diogelwch neu ofal claf yn cael ei danseilio gan waith cydweithwyr neu gan y systemau, y polisiau a'r gweithdrefnau yn y sefydliad y maent yn gweithio ynddo. Rhaid iddynt annog a chefnogi diwylliant lle y mae modd i staff fynegi pryderon mewn ffordd agored a diogel hefyd.
- 8 Ni ddylech ymrwymo i gontractau neu gytundebau gyda'ch corff cyflogi neu gontractio sy'n ceisio'ch atal rhag mynegi pryderon am ddiogelwch cleifion, neu gyfyngu'ch gallu i wneud hynny. Bydd contractau neu gytundebau yn ddi-rym os mai eu bwriad yw atal cyflogai rhag gwneud datgeliad wedi'i ddiogelu.
- 9 Efallai eich bod yn amharod i adrodd pryder am nifer o resymau. Er enghraifft, oherwydd eich bod yn ofni na fydd unrhyw beth yn cael ei wneud, neu oherwydd y gallai mynegi'ch pryder achosi problemau i gydweithwyr; cael effaith negyddol ar berthnasodded gwaith; cael effaith negyddol ar eich gyrfa; neu arwain at gŵyn yn cael ei gwneud amdanoch chi.

- 10** Os ydych yn oedi cyn adrodd pryder o ganlyniad i'r rhesymau hyn, dylech gofio'r canlynol.
- a** Mae gennych ddyletswydd i roi'r pwys mwyaf ar fuddiannau cleifion a gweithredu i'w diogelu, ac mae'r ddyletswydd hon yn drech na theyrngarwch personol a phroffesiynol.
 - b** Mae'r gyfraith yn cynnig diogelwch cyfreithiol rhag erledigaeth neu ddiswyddo ar gyfer unigolion sy'n datgelu gwybodaeth er mwyn mynegi pryderon go iawn ac er mwyn amlygu camymddygiad yn y gweithle.
 - c** Nid oes yn rhaid i chi aros am brawf – bydd modd i chi gyfiawnhau'r cam o fynegi pryder os byddwch yn gwneud hynny mewn ffordd onest, ar sail cred resymol a thrwy ddilyn y camau priodol, hyd yn oes os byddwch wedi gwneud camgymeriad.

Caniatâd: cleifion a meddygon yn gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd

Rhannu gwybodaeth

- 18** Yn aml, bydd y ffordd y byddwch yn trafod diagnosis, prognosis a dewisiadau claf o ran triniaethau, mor bwysig â'r wybodaeth ei hun. Dylech:
- a** rannu gwybodaeth mewn ffordd y gall y claf ei deall a, phan fo modd, mewn man ac ar adeg pan fyddant yn gallu ei deall a'i chofio orau
 - b** rhoi gwybodaeth a allai beri gofid i'r claf, mewn ffordd ystyriol
 - c** cynnwys aelodau eraill y tîm gofal iechyd yn ystod trafodaethau gyda'r claf, pan fo hynny'n briodol
- d** rhoi amser i'r claf ystyried y mater cyn iddynt wneud penderfyniad ac ar ôl hynny, yn enwedig os yw'r wybodaeth yn gymhleth neu os yw'r hyn yr ydych yn ei gynnig yn cynnwys risgiau sylweddol
- e** sicrhau bod y claf yn gwybod os oes cyfyngiad o ran yr amser sydd ganddynt i wneud eu penderfyniad, a phwy y gallant gysylltu â nhw yn y tîm gofal iechyd os bydd ganddynt unrhyw gwestiynau neu bryderon.
- 19** Dylech roi gwybodaeth i gleifion mewn ffordd gytbwys. Os byddwch yn argymhell triniaeth neu weithredu penodol, dylech esbonio'ch rhesymau dros wneud hynny. Ond, ni ddylech roi pwysau ar glaf i dderbyn eich cyngor.
- 20** Efallai y bydd angen i chi ddefnyddio deunydd ysgrifenedig, neu gymhorthion gweledol neu gymhorthion eraill er mwyn cynorthwyo'ch trafodaethau gyda chleifion. Os bydd angen i chi wneud hynny, dylech sicrhau bod y deunydd yn gywir ac yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf.
- 21** Dylech ddarganfod a oes angen unrhyw gymorth ychwanegol ar y claf er mwyn deall y wybodaeth, cyfleu eu dymuniadau, neu wneud penderfyniad. Dylech gofio na fydd rhai rhwystrau o ran deall a chyfleu yn amlwg efallai; er enghraifft, efallai y bydd gan glaf bryderon na fyddant wedi sôn amdanynt, neu gallai fod poen neu broblemau sylfaenol eraill yn effeithio arnynt. Rhaid i chi sicrhau, pryd bynnag y bo hynny'n ymarferol, bod trefniadau yn cael eu gwneud i roi unrhyw gymorth angenrheidiol i'r claf. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft: defnyddio eiriolwr neu gyfieithydd; holi'r rhai sy'n agos i'r claf ynghylch anghenion cyfathrebu y claf; neu roi cofnod ysgrifenedig neu gofnod sain i'r claf o'r drafodaeth ac unrhyw benderfyniadau a wnaethpwyd.

Cynnwys teuluoedd, gofalwyr ac eiriolwyr

22 Dylech ymateb i ddymuniadau claf os byddant yn dymuno i berson arall, megis perthynas, partner, ffrind, gofalwr neu eiriolwr, i gymryd rhan yn y trafodaethau neu i'w helpu i wneud penderfyniadau. Yn yr amgylchiadau hyn, dylech ddilyn yr arweiniad ym mharagraffau 7–21.

Rhwystrau o ran rhannu gwybodaeth

23 Weithiau, mae'n anodd oherwydd pwysau ar eich amser chi neu'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael, i roi cymaint o wybodaeth neu gymorth i gleifion wrth iddynt wneud penderfyniadau, ag y byddech chi, neu nhw, yn ei ddymuno. Er mwyn helpu gyda hyn, dylech ystyried rôl posibl aelodau eraill y tîm gofal iechyd, a'r ffynonellau gwybodaeth a chymorth eraill sydd ar gael. Gallai'r rhain gynnwys, er enghraifft, taflenni gwybodaeth i gleifion, gwasanaethau eiriolaeth, rhaglenni arbenigol ar gyfer cleifion, neu grwpiau cymorth i bobl sy'n dioddef cyflyrau penodol.

24 Dylech wneud eich gorau i sicrhau bod cleifion y mae ganddynt anghenion ychwanegol, megis y rhai sydd ag anableddau, yn cael yr amser a'r cymorth y bydd ei angen arnynt er mwyn gwneud penderfyniad. Ym mhob achos, rhaid i chi drin cleifion yn deg ac ni ddylech wahaniaethu yn eu herbyn.

25 Os ydych o'r farn bod cyfyngiadau ar eich gallu i roi'r amser neu'r wybodaeth y mae ei hangen ar gleifion, yn effeithio ar eu gallu i wneud penderfyniad gwybodus, dylech gyfleu eich pryderon i'ch awdurdod cyflogi neu gontractio. Gweler paragraff 25b *Arfer meddygol da a'r arweiniad esboniadol Mynegi pryderon am ddiogelwch cleifion a gweithredu yn eu cylch*.

28 Gall darparu gwybodaeth eglur a chywir ynghylch risgiau unrhyw archwiliad neu driniaeth arfaethedig, a gyflwynir mewn ffordd y gall cleifion ei deall, eu helpu i wneud penderfyniadau gwybodus. Bydd cyfanswm y wybodaeth ynghylch risg y dylech ei rhannu gyda chleifion, yn dibynnu ar y claf unigol a'r hyn y maent yn dymuno ei wybod neu'r hyn y mae angen iddynt ei wybod. Dylai'ch trafodaethau gyda chleifion ganolbwyntio ar eu sefyllfa unigol a'r risg iddynt.

29 Er mwyn cael trafodaethau effeithiol gyda chleifion ynghylch risg, rhaid i chi nodi'r canlyniadau niweidiol a allai godi o'r dewisiadau arfaethedig. Mae hyn yn cynnwys y penderfyniad i beidio gwneud unrhyw beth, sy'n un o'r canlyniadau posibl. Gall risgiau fod ar sawl ffurf, ond fel arfer byddant yn ymwneud â'r canlynol:

- a** sgîl-effeithiau
- b** cymhlethdodau
- c** methiant ymyriad i gyflawni'r nod a ddymunir.

Gall risgiau amrywio o fân sgîl-effeithiau cyffredin, i ganlyniadau niweidiol difrifol, a allai arwain at anabledd parhaol neu farwolaeth.

30 Wrth asesu'r risg i glaf unigol, rhaid i chi ystyried natur cyflwr y claf, eu hiechyd cyffredinol ac amgylchiadau eraill. Mae'r rhain yn ffactorau newidiol a allai effeithio ar y tebygolrwydd y bydd canlyniadau niweidiol yn digwydd.

- 31** Dylech wneud eich gorau i ddeall safbwyntiau a dewisiadau claf ynghylch unrhyw archwiliad neu driniaeth arfaethedig, a'r canlyniadau niweidiol y maent yn pryderu fwyaf yn eu cylch. Ni ddylech ffurfio rhagdybiaethau ynghylch dealltwriaeth claf o risg neu bwysigrwydd gwahanol ganlyniadau iddynt. Dylech drafod y materion hyn gyda'ch claf.
- 32** Rhaid i chi hysbysu cleifion os allai archwiliad neu driniaeth arwain at ganlyniad niweidiol difrifol, hyd yn oed os yw'r tebygolrwydd y bydd hyn yn digwydd yn fach iawn. Yn ogystal, dylech ddweud wrth gleifion am sgîl-ffeithiau neu gymhlethdodau llai difrifol os byddant yn digwydd yn aml, gan esbonio'r hyn y dylai'r claf ei wneud os byddant yn cael profiad o unrhyw un ohonynt.
- 33** Rhaid i chi roi'r wybodaeth ynghylch risg mewn ffordd gytbwys. Dylech osgoi unrhyw duedd, a dylech esbonio'r manteision disgwylidig, yn ogystal â beichiau a risgiau posibl unrhyw archwiliad neu driniaeth arfaethedig.
- 34** Rhaid i chi ddefnyddio iaith eglur, syml a chyson wrth drafod risgiau gyda chleifion. Dylech fod yn ymwybodol o'r ffaith y gallai cleifion ddeall gwybodaeth ynghylch risg mewn ffordd wahanol i chi. Dylech sicrhau bod y claf yn deall y termau y byddwch yn eu defnyddio, yn enwedig wrth ddisgrifio difrifoldeb, amllder a thebygolrwydd canlyniad niweidiol. Dylech ddefnyddio gwybodaeth ysgrifenedig neu gymhorthion gweledol neu gymhorthion eraill syml a chywir i esbonio risg, os byddant yn helpu'r claf i ddeall.
- 35** Os na fydd claf yn dymuno cael gwybod am risgiau posibl archwiliad neu driniaeth arfaethedig, rhaid i chi ddilyn yr arweiniad ym mharagraffau 13–17.

- 36** Rhaid i chi sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf yn eich maes gwaith, a allai effeithio ar eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r archwiliadau neu'r triniaethau y byddwch yn eu darparu.

Sicrhau bod penderfyniadau yn rhai gwirfoddol

- 41** Efallai y bydd cleifion dan bwysau gan gyflogwyr, yswirwyr, perthnasau neu eraill i dderbyn archwiliad neu driniaeth benodol. Dylech fod yn ymwybodol o hyn ac o sefyllfaoedd eraill lle y gallai cleifion fod yn agored i hyn. Gallai sefyllfaoedd o'r fath godi, er enghraifft, os ydynt mewn cartref gofal, yn rhwym i ddeddfwriaeth iechyd meddwl, dan gadwad yr heddlu neu'r gwasanaethau mewnfudo, neu os ydynt yn y carchar.
- 42** Dylech wneud eich gorau i sicrhau bod cleifion o'r fath wedi ystyried y dewisiadau sydd ar gael iddynt a'u bod wedi gwneud eu penderfyniad eu hunain. Os bydd ganddynt yr hawl i wrthod triniaeth, dylech sicrhau eu bod yn gwybod hyn a'u bod yn gallu ei gwrthod os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Mynegiadau caniatâd

- 44** Cyn derbyn caniatâd claf, rhaid i chi ystyried a ydynt wedi cael y wybodaeth y maent yn dymuno'i chael neu y mae ei hangen arnynt, a pha mor dda y maent yn deall manylion a goblygiadau'r hyn a gynigir. Mae hyn yn bwysicach na'r ffordd y caiff eu caniatâd ei fynegi neu ei gofnodi.

47 Mewn achosion sy'n ymwneud â mwy o risg, mae'n bwysig eich bod yn sicrhau caniatâd ysgrifenedig y claf. Diben hyn yw sicrhau bod pawb dan sylw yn deall yr hyn a esboniwyd a'r hyn a gytunwyd.

49 Yn ogystal, dylech sicrhau caniatâd ysgrifenedig claf:

- a os yw'r archwiliad neu'r driniaeth yn gymhleth neu os yw'n cynnwys risgiau sylweddol
- b os allai hyn arwain at ganlyniadau sylweddol i fywyd personol, bywyd cymdeithasol neu sefyllfa gyflogaeth y claf
- c os nad darparu gofal clinigol yw prif ddiben yr archwiliad neu'r driniaeth
- d os yw'r driniaeth yn rhan o raglen ymchwil neu'n driniaeth arloesol a gynlluniwyd yn benodol er eu lles.

Adolygu penderfyniadau

52 Cyn cychwyn unrhyw driniaeth, dylech chi neu aelod o'r tîm gofal iechyd sicrhau bod y claf yn dymuno cael y driniaeth o hyd; ac mae'n rhaid i chi ymateb i unrhyw bryderon neu gwestiynau newydd sydd ganddynt neu a godir eto ganddynt. Mae hyn yn arbennig o bwysig:

- a os bydd amser sylweddol wedi mynd heibio ers y gwnaethpwyd penderfyniad cyntaf
- b os bu newidiadau perthnasol yng nghyflwr y claf, neu mewn unrhyw agwedd ar yr archwiliad neu'r driniaeth arfaethedig

- c os oes gwybodaeth newydd ar gael, er enghraifft ynghylch risgiau triniaeth neu ynghylch dewisiadau o ran triniaethau eraill.

53 Rhaid i chi sicrhau bod cleifion yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch cynnydd eu triniaeth, a'u bod yn gallu gwneud penderfyniadau yn ystod pob cam, ac yn nid ar y dechrau yn unig. Os bydd y driniaeth yn driniaeth barhaus, dylech sicrhau bod trefniadau eglur wedi cael eu gwneud i adolygu penderfyniadau ac i wneud rhai newydd yn ôl yr angen.

Rhan 3: Materion sy'n ymwneud â galluedd

Y fframwaith cyfreithiol

62 Caiff y broses o wneud penderfyniadau ynghylch triniaeth a gofal i gleifion nad ydynt yn meddu ar alluedd, ei llywodraethu gan *Deddf Galluedd Meddyliol 2005* yng Nghymru a Lloegr, a chan *Adults with Incapacity (Scotland) Act 2000* yn yr Alban. Mae'r deddfwriaeth yn nodi'r meini prawf a'r gweithdrefnau i'w dilyn wrth wneud penderfyniadau pan na fydd cleifion yn meddu ar alluedd i wneud y penderfyniadau hyn drostynt eu hunain. Yn ogystal, mae'n rhoi awdurdod cyfreithiol i unigolion penodol i wneud penderfyniadau ar ran cleifion nad ydynt yn meddu ar alluedd. Yng Ngogledd Iwerddon, ni cheir deddfwriaeth sylfaenol berthnasol ar hyn o bryd; a chaiff y broses o wneud penderfyniadau ar ran cleifion nad ydynt yn meddu ar alluedd ei llywodraethu gan gyfraith gwlad, sy'n mynnu bod penderfyniadau yn cael eu gwneud er lles claf. Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch deddfwriaeth a chyfraith achosion yn yr atodiad cyfreithiol i'r arweiniad hwn.

63 Mae'r arweiniad sy'n dilyn yn cyd-fynd â'r gyfraith ar draws y DU. Mae'n bwysig eich bod yn ymwybodol o'r cyfreithiau a'r codau ymarfer diweddaraf sy'n berthnasol yn y man lle'r ydych yn gweithio, a'ch bod yn cydymffurfio â nhw. Os nad ydych yn siŵr ynghylch y ffordd y mae'r gyfraith yn berthnasol mewn sefyllfa benodol, dylech gysylltu â'ch corff amddiffyn neu'ch cymdeithas broffesiynol, neu geisio cyngor cyfreithiol annibynnol.

Rhagdybio galluedd

64 Rhaid i chi weithio yn unol â'r rhagdybiaeth bod pob claf sy'n oedolyn yn meddu ar y galluedd i wneud penderfyniadau ynghylch eu gofal, ac i benderfynu a ydynt yn mynd i gytuno i gael, neu i wrthod, archwiliad neu driniaeth. Dim ond pan fydd yn amlwg, ar ôl rhoi'r holl help a chymorth priodol iddynt, na all claf ddeall, cofio, defnyddio neu ystyried y wybodaeth sy'n angenrheidiol er mwyn gwneud y penderfyniad hwn, neu gyfleu eu dymuniadau, y gellir ystyried nad yw claf yn meddu ar alluedd.

65 Ni ddylech gymryd yn ganiataol nad yw claf yn meddu ar alluedd i wneud penderfyniad ar sail eu hoedran, eu hanabledd, eu hymddangosiad, eu hymddygiad, eu cyflwr meddygol (gan gynnwys salwch meddwl), eu credoau, y ffaith ei bod yn ymddangos na allant gyfathrebu, neu'r ffaith eu bod yn gwneud penderfyniad nad ydych yn cytuno ag ef.

Manteisio'n llawn ar allu claf i wneud penderfyniadau

66 Gall gallu claf i wneud penderfyniadau ddibynnu ar natur a difrifoldeb eu cyflwr, neu ar gymhlethdod y penderfyniad neu ar ba mor anodd yw hi i wneud y penderfyniad. Bydd rhai cleifion bob amser yn gallu gwneud penderfyniadau syml, ond efallai y byddant yn cael anhawster os bydd y penderfyniad yn un cymhleth neu os bydd yn cynnwys nifer o ddewisiadau. Efallai y bydd cleifion eraill yn gallu gwneud penderfyniadau ar adegau penodol, ond nid ar adegau eraill oherwydd bod amrywiadau yn eu cyflwr yn amharu ar eu gallu i ddeall, cofio neu ystyried gwybodaeth, neu gyfleu eu dymuniadau.

67 Os bydd galluedd claf yn cael ei effeithio fel hyn, rhaid i chi ddilyn yr arweiniad ym mharagraffau 18–21, gan wneud yn siŵr eich bod yn rhoi'r amser a'r cymorth y bydd eu hangen ar y claf er mwyn manteisio'n llawn ar eu gallu i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain. Er enghraifft, bydd angen i chi ystyried y cymorth ychwanegol y bydd ei angen ar gleifion y mae ganddynt anableddau dysgu neu ddemensia.

68 Rhaid i chi gymryd pob cam rhesymol i gynllunio ar gyfer newidiadau y gellir eu rhagweld o ran galluedd claf i wneud penderfyniadau. Mae hyn yn golygu y dylech:

- a** drafod dewisiadau ynghylch triniaeth mewn man ac ar adeg pan fydd y claf yn gallu deall y wybodaeth hon orau, a'i chofi
- b** holi'r claf a oes unrhyw beth a fyddai'n eu helpu i gofio gwybodaeth, neu'n ei gwneud yn haws iddynt wneud penderfyniad; fel cael cwmni perthynas, partner, ffrind, gofalwr neu eiriolwr yn ystod yr ymgynghoriadau, neu gael gwybodaeth ysgrifenedig neu wybodaeth glywedol ynghylch eu cyflwr neu'r archwiliad neu'r driniaeth arfaethedig

- c trafod y ffyrdd gorau o gyfathrebu gyda'r claf gyda'r unigolyn hwnnw/honno sydd agosaf i'r claf a gyda staff gofal iechyd eraill, gan ystyried materion sy'n ymwneud â chyfrinachedd.
- 69 Os bydd claf yn debygol o gael anhawster wrth gofio gwybodaeth, dylech gynnig cofnod ysgrifenedig iddynt o'ch trafodaethau, gan nodi'r penderfyniadau a wnaethpwyd, a pham.
- 70 Dylech gofnodi unrhyw benderfyniadau a wneir, pryd bynnag y bo modd, tra bod y claf yn meddu ar y galluedd i'w deall a'u hadolygu. Rhaid i chi gofio y bydd angen cofnodi, llofnodi a bod yn dyst i benderfyniadau a wneir ymlaen llaw i wrthod triniaeth efallai.

Asesu galluedd

- 71 Rhaid i chi asesu galluedd claf i wneud penderfyniad penodol ar yr adeg y bydd angen ei wneud. Os na fydd claf yn meddu ar alluedd i wneud penderfyniad ar achlysur penodol, ni ddylech ragdybio nad ydynt yn meddu ar alluedd i wneud unrhyw benderfyniadau o gwbl, neu na fyddant yn gallu gwneud penderfyniadau tebyg yn y dyfodol.
- 72 Rhaid i chi ystyried y cyngor ynghylch asesu galluedd yn y Codau Ymarfer sy'n cyd-fynd â *Deddf Galluedd Meddyliol 2005* ac *Adults with Incapacity (Scotland) Act 2000* ac arweiniad perthnasol arall. Os ydych yn asesu bod galluedd claf ar y ffin, rhaid eich bod yn gallu dangos ei bod yn fwy tebygol nad ydynt yn meddu ar alluedd.
- 73 Os bydd gennych unrhyw amheuaeth ynghylch galluedd y claf i wneud penderfyniad, dylech geisio cyngor gan:
- a staff nyrsio neu eraill sy'n ymwneud â gofal y claf, neu'r rhai sy'n agos at y claf, neu eraill a allai fod yn ymwybodol o allu arferol y claf i wneud penderfyniadau a'u hanghenion cyfathrebu penodol

- b cydweithwyr sy'n meddu ar brofiad arbenigol perthnasol, megis seiciatryddion, niwrolegwyr neu therapyddion iaith a lleferydd.

- 74 Os ydych yn ansicr o hyd ynghylch galluedd y claf i wneud penderfyniad, rhaid i chi geisio cyngor cyfreithiol gyda'r nod o ofyn i lys barn bennu galluedd.

Gwneud penderfyniadau pan na fydd claf yn meddu ar alluedd

- 75 Wrth wneud penderfyniadau ynghylch triniaeth a gofal cleifion nad ydynt yn meddu ar alluedd, rhaid i chi:
- a roi'r pwys mwyaf ar ofal eich claf
 - b trin cleifion fel unigolion a pharchu eu hurddas
 - c cynorthwyo ac annog cleifion i gymryd rhan mewn penderfyniadau a wneir ynghylch eu triniaeth a'u gofal gymaint ag y maent yn dymuno gwneud hynny ac yn gallu gwneud hynny
 - d trin cleifion gyda pharch a pheidio gwahaniaethu yn eu herbyn.
- 76 Yn ogystal, rhaid i chi ystyried:
- a a yw diffyg galluedd y claf yn sefyllfa barhaol neu'n sefyllfa dros dro
 - b pa ddewisiadau o ran triniaeth fyddai'n sicrhau lles clinigol cyffredinol ar gyfer y claf
 - c pa ddewis, gan gynnwys y dewis i beidio trin, fyddai'n cyfyngu leiaf ar ddewisiadau'r claf yn y dyfodol

- d** unrhyw dystiolaeth ynghylch dewisiadau'r claf a fynegwyd yn flaenorol, megis penderfyniad neu ddatganiad ymlaen llaw
- e** safbwyntiau unrhyw un y mae'r claf yn gofyn i chi ymgynghori â nhw, neu sy'n meddu ar awdurdod cyfreithiol i wneud penderfyniad ar eu rhan, neu a benodwyd i'w cynrychioli
- f** safbwyntiau pobl sy'n agos at y claf ynghylch dewisiadau, teimpladau, credoau a gwerthoedd y claf, ac a ydynt o'r farn bod y driniaeth arfaethedig er lles y claf
- g** yr hyn yr ydych chi a gweddill y tîm gofal iechyd yn ei wybod am ddymuniadau, teimpladau, credoau a gwerthoedd y claf.

Datrys anghydfodau

- 77** Dylech geisio dod i gytundeb ynghylch triniaeth a gofal claf, gan neilltuo digon o amser i gynnal trafodaethau gyda'r rhai sydd â diddordeb yn lles y claf. Weithiau, bydd aelodau'r tîm gofal iechyd, neu aelodau'r tîm gofal iechyd a'r rhai sy'n agos i'r claf, yn anghytuno. Fel arfer, bydd modd datrys hyn, er enghraifft trwy gynnwys eiriolwr annibynnol, ymgynghori gyda chydweithiwr mwy profiadol, cynnal cynhadledd achos, neu ddefnyddio gwasanaethau cyfryngu lleol. Dylech ystyried y gwahanol rolau penderfynu, ynghyd ag awdurdod y rhai y byddwch yn ymgynghori â nhw, yn ogystal â'r fframwaith cyfreithiol er mwyn datrys anghydfodau.
- 78** Ar ôl cymryd y camau hyn, os bydd anghytuno sylweddol o hyd, dylech geisio cyngor cyfreithiol ynghylch gwneud cais i'r llys neu'r corff statudol priodol am adolygiad neu ddyfarniad annibynnol. Dylid hysbysu cleifion, y rhai a awdurdodwyd i weithredu ar eu rhan, a'r rhai sy'n agos atynt, cyn gynted ag y bo modd o unrhyw benderfyniad i gychwyn trefniant o'r fath er mwyn iddynt gael y cyfle i gyfranogi neu i gael eu cynrychioli.

Cwmpas triniaeth mewn argyfwng

- 79** Pan fydd argyfwng yn codi mewn lleoliad clinigol ac nid oes modd darganfod beth yw dymuniadau claf, gallwch eu trin heb sicrhau eu caniatâd, ar yr amod bod angen rhoi'r driniaeth iddynt ar unwaith er mwyn achub eu bywyd neu er mwyn atal eu cyflwr rhag gwaethygu yn ddifrifol. Rhaid i'r driniaeth y byddwch yn ei rhoi gyfateb â'r un a fydd yn cyfyngu leiaf ar ddewisiadau'r claf yn y dyfodol. Yn ystod y cyfnod pan na fydd claf yn meddu ar alluedd, dylech ddarparu gofal parhaus ar sail yr arweiniad ym mharagraffau 75–76. Os bydd y claf yn adennill galluedd pan fyddant dan eich gofal, dylech eu hysbysu o'r hyn a wnaethpwyd, a pham, cyn gynted ag y byddant wedi gwella digon i ddeall y sefyllfa.

0–18 oed: arweiniad i bob meddy

Asesu budd pennaf

- 12** Bydd asesiad o'r hyn sydd er budd pennaf plant a phobl ifanc yn cynnwys y wybodaeth glinigol mewn achos penodol. Yn ogystal, dylech ystyried:
- a** safbwyntiau'r plentyn neu'r person ifanc, i'r graddau y gallant eu mynegi, gan gynnwys unrhyw ddymuniadau a fynegwyd yn flaenorol
 - b** safbwyntiau rhieni
 - c** safbwyntiau eraill sy'n agos i'r plentyn neu'r person ifanc
 - d** credoau diwylliannol, credoau crefyddol neu gredoau eraill y plentyn neu'r rhieni

- e safbwyntiau gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill sy'n ymwneud â'r gwaith o ddarparu gofal i'r plentyn neu'r person ifanc, ac unrhyw weithwyr proffesiynol eraill y mae ganddynt ddi-ddordeb yn eu lles
- f pa ddewis, os ceir mwy nag un, a fydd yn cyfyngu leiaf ar ddewisiadau'r plentyn neu'r person ifanc yn y dyfodol.

Gwneud penderfyniadau

- 22 Gallwch roi triniaeth feddygol i blentyn neu berson ifanc gyda'u caniatâd os ydynt yn gymwys i'w roi, neu gyda chaniatâd rhiant neu'r llys. Gallwch roi triniaeth frys heb ganiatâd er mwyn achub bywyd plentyn neu berson ifanc, neu er mwyn atal eu hiechyd rhag gwaethygu yn ddifrifol.

Cyfrinachedd

Diogelu gwybodaeth

- 12 Rhaid i chi sicrhau bod unrhyw wybodaeth bersonol am gleifion a gedwir gennych neu yr ydych yn ei rheoli, yn cael ei diogelu mewn ffordd effeithiol bob amser yn erbyn datgeliadau amhriodol. Mae adrannau iechyd y DU yn cyhoeddi arweiniad ynghylch pa mor hir y dylid cadw cofnodion meddygol, a sut y dylid eu gwaredu. Dylech ddilyn yr arweiniad hwn os ydych yn gweithio yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) neu beidio.
- 13 Mae nifer o ddatgeliadau amhriodol yn rhai anfwriadol. Ni ddylech rannu gwybodaeth adnabyddadwy am gleifion lle y bydd modd i rywun ddigwydd clywed, er enghraifft, mewn man cyhoeddus neu mewn fforwm sgwrsio ar y rhyngwyd. Ni ddylech rannu cyfrineiriau neu adael cofnodion cleifion, naill ai ar bapur neu ar sgrîn, heb neb ar eu cyfyl neu mewn man lle

y bydd modd i gleifion eraill, staff gofal iechyd anawdurdodedig neu'r cyhoedd eu gweld.

- 14 Oni bai eu bod yn cyflawni rôl rheoli perthnasol, ni ddisgwylir i feddygon asesu safonau diogelwch systemau cyfrifiadurol mawr a ddarparir ar eu cyfer yn GIG neu mewn amgylcheddau gofal iechyd eraill a reolir. Dylech sicrhau eich bod yn gyfarwydd gyda'r polisiau a'r egwyddorion a gynlluniwyd i ddiogelu preifatrwydd cleifion lle'r ydych yn gweithio, a'u dilyn, a phan fyddwch yn defnyddio systemau cyfrifiadurol a ddarparwyd ar eich cyfer. Mae hyn yn cynnwys polisiau ynghylch defnyddio gliniaduron a dyfeisiau storio cyfrwng cludadwy. Ni ddylech gamdefnyddio'ch breintiau mynediad ac mae'n rhaid i chi gyfyngu ar eich gweithgarwch mynediad i wybodaeth y mae gennych reswm dilys dros droi ati.
- 15 Os ydych yn gyfrifol am reoli cofnodion cleifion neu wybodaeth arall am gleifion, dylech sicrhau eu bod yn cael eu cadw mewn man diogel a bod unrhyw staff yr ydych yn eu rheoli yn cael eu hyfforddi a'u bod yn deall eu cyfrifoldebau. Dylech fanteisio ar arbenigedd proffesiynol wrth ddewis a datblygu systemau er mwyn cofnodi, troi at ac anfon data electronig. Dylech sicrhau bod modd troi at wybodaeth weinyddol, megis enwau a chyfeiriadau, ar wahân i wybodaeth glinigol, er mwyn gwneud yn siŵr na fydd gwybodaeth sensitif yn cael ei dangos yn awtomatig.
- 16 Os ydych yn pryderu am ddiogelwch gwybodaeth bersonol mewn safle neu mewn systemau a ddarparwyd at eich defnydd, dylech ddilyn y cyngor yn *Arfer meddygol da* ynghylch mynegi pryderon am ddiogelwch cleifion, gan gynnwys pryderon ynghylch cyfrinachedd a llywodraethu gwybodaeth.

Rhannu gwybodaeth gyda phartner, gofalwyr, perthnasau neu ffrindiau claf

- 64** Dylech gytuno gyda'r claf pa wybodaeth y maent yn dymuno i chi ei rhannu, gyda phwy ac ym mha amgylchiadau. Bydd hyn yn arbennig o bwysig os bydd galluedd y claf yn gyfnewidiol neu'n lleihau, neu os byddant yn debygol o golli galluedd, hyd yn oed os bydd hynny am gyfnod dros dro. Gall trafodaethau cynnar o'r natur hwn helpu i osgoi datgeliadau y byddai cleifion yn gwrthwynebu iddynt. Yn ogystal, gallant helpu i osgoi camddealltwriaeth gydag unrhyw un y byddai'r claf yn dymuno rhannu gwybodaeth gyda nhw, neu dramgwyddo unigolion o'r fath.
- 65** Os na fydd claf yn meddu ar alluedd, dylech rannu gwybodaeth berthnasol yn unol â'r cyngor ym mharagraffau 57 i 63. Oni bai eu bod yn mynegi fel arall, mae'n rhesymol tybio y byddai cleifion yn dymuno i'r rhai sydd agosaf iddynt gael eu hysbysu o'u cyflwr cyffredinol a'u prognosis.
- 66** Os bydd unrhyw un sy'n agos i'r claf yn dymuno trafod eu pryderon ynghylch iechyd y claf, dylech egluro iddynt, er nad yw gwrando ar eu pryderon yn cyfateb â thorri amodau cyfrinachedd, na allwch warantu na fyddwch yn dweud wrth y claf am y sgwrs. Efallai y bydd angen i chi rannu gwybodaeth yr ydych wedi'i chael gan eraill gyda chlaf, er enghraifft, os yw wedi dylanwadu ar eich asesiad o'r claf a'r driniaeth ar eu cyfer. Ni ddylech wrthod gwrando ar bartner neu ofalwyr claf, neu eraill, ar sail cyfrinachedd. Gallai eu safbwyntiau nhw neu'r wybodaeth y byddant yn ei darparu, fod o gymorth wrth i chi ddarparu gofal ar gyfer y claf. Fodd bynnag, bydd angen i chi ystyried a fyddai'ch claf o'r farn bod gwrando ar bryderon eraill ynghylch iechyd neu ofal eich claf, yn cyfateb gydag achos o dorri ymddiriedaeth, yn enwedig os ydynt wedi gofyn i chi beidio gwrando ar rai pobl penodol.

Cyfeiriadau

Cyngor Meddygol Cyffredinol (2007) *0–18 oed: arweiniad i bob meddyg*

Cyngor Meddygol Cyffredinol (2009) *Cyfrinachedd*

Cyngor Meddygol Cyffredinol (2008) *Caniatâd: cleifion a meddygon yn gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd*

Cyngor Meddygol Cyffredinol (2013) *Dirprwyo a chyfeirio*

Cyngor Meddygol Cyffredinol (2013) *Trefniadau ariannol a masnachol a gwrthdaro rhwng buddiannau*

Cyngor Meddygol Cyffredinol (2013) *Arfer meddygol da*

Cyngor Meddygol Cyffredinol (2013) *Arfer da wrth bresgripsiynu a rheoli dyfeisiau*

Cyngor Meddygol Cyffredinol (2014) *Arweiniad i feddygon sy'n cyflawni rôl clinigwyr neu feddygon ymgynghorol cyfrifol*

Cyngor Meddygol Cyffredinol (2012) *Arweinyddiaeth a rheolaeth ar gyfer pob meddyg*

Cyngor Meddygol Cyffredinol (2015) *Gweithredu mewn ffordd agored a gonest pan fydd pethau yn mynd o le: dyletswydd broffesiynol gonestrwydd*

Cyngor Meddygol Cyffredinol (2012) *Mynegi pryderon am ddiogelwch cleifion a gweithredu yn eu cylch*

Cymdeithas Llawfeddygon Plastig Esthetig Prydain (2012) *Code of conduct*

Cymdeithas Llawfeddygon Plastig, Adluniol ac Esthetig Prydain (2013) *Code of Practice*

Pwyllgor Arfer Hysbysebu (2013) *Marketing of cosmetic interventions*

Adran Iechyd (2013) *Review of the regulation of cosmetic interventions*

Addysg Iechyd Lloegr (2016) *Qualification requirements for cosmetic procedures*

Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion (2013) *Safe Sedation Practice for Healthcare Procedures: Standards and Guidance*

Coleg Brenhinol y Llawfeddygon *Professional Standards for Cosmetic Surgery* (2016)

Grŵp Arbenigol Ymyriadau Cosmetig yr Alban (2015) *Scottish Cosmetic Interventions Expert Group report*

Treatments You Can Trust (2015) *Policy statement on advertising and promotion of Non-Surgical Cosmetic Injectable Treatments by providers on the Treatments You Can Trust Register*